Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

—

Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

10 Awst 2021

Annwyl Paul,

Cydweithio rhwng pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd

Fel pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar bob agwedd ar gydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae ein cylch gorchwyl eang yn cynnwys nifer o faterion trawsbynciol pwysig sydd o ddiddordeb i'ch pwyllgor chi ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl i gydweithio.

Hoffwn eich gwahodd i drafod y cyfleoedd hyn i gydweithio fel rhan o unrhyw drafodaethau rydych yn eu cael ar gynlluniau strategol eich pwyllgor yn nhymor yr hydref.

Gwaith cynnar ar ddyled a menywod yn y gweithle

Roeddwn hefyd am roi gwybod bod y pwyllgor wedi cytuno i gynnal ymchwiliad byr i effaith y pandemig COVID-19 ar lefelau dyled yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gwmpasu ar hyn o bryd, ond mae'n debygol o edrych ar sut y mae'r pandemig wedi gwaethygu'r tueddiadau presennol o ran tai, dyled defnyddwyr a dyled bersonol, yn ogystal â gallu gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i bobl sy'n wynebu trafferthion ariannol.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi cytuno i wneud gwaith cwmpasu ar effaith y pandemig COVID-19 ar fenywod yn y gweithle. Mae effeithiau negyddol y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar fenywod, yn enwedig menywod sy'n gweithio ac sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae'r ymchwiliad byr hwn yn debygol o edrych ar bwysigrwydd strategol gofal plant mewn perthynas â lefelau cynhyrchiant, yn ogystal â sut y gall y Llywodraeth a chyflogwyr ymateb i sicrhau cydraddoldeb a thegwch wrth adfer o'r pandemig.

Byddwn yn trafod y gwaith hwn mewn rhagor o fanylder yn yr hydref a byddwn yn hapus i ddarparu rhagor o wybodaeth i chi am ein cynlluniau wrth iddynt ddatblygu. Os oes gan eich pwyllgor unrhyw syniadau ar gyfer gwaith ar y cyd yr hoffech eu trafod, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clercio.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.